**<u>Yr Hen Dŷ Gwag</u>**

'Hylô 'ma! Oes 'na rywun i mewn?'
'I mewn,' meddai llais o draw;
A dim byd wedyn ond sŵn y gwynt
A dripian diflas y glaw.

Roedd y grat yn oer yn y gegin fawr,
Heb lygedyn o dân na glo.
Roedd y papur wal wedi rhaflo i gyd,
A llwydni ar drawstiau'r to.

Mynd trwy'r stafelloed o un i un,
A'u cael yn foel a di-drefn.
'Hylô 'ma! Oes 'na rywun i mewn?'
'I mewn,' meddai'r llais drachefn.

Cerdded y grisiau i fyny i'r llofft.
Gwag yw'r stafelloedd bob un.
'Hylô 'ma! Oes na' rhywun i mewn?'
'I mewn?' . . . Neb ond fi fy hun.

T.Llew.Jones